DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Addysgu Powys: Canolfan Ddeintyddol Llanidloes

Dyddiad arolygiad: 15 Mawrth 2016

Dyddiad cyhoeddi: 29 Gorffennaf 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu, pan wneir cais i fodloni anghenion unigol. Am ragor o gymorth, cysylltwch â ni.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@cymru.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-6503-9
ⓗ Hawlfraint y Goron 2016

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda: .......... 4

4. Canfyddiadau .......... 5

Ansawdd Profiad y Claf .......... 5

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 7

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15

5. Y Camau Nesaf .......... 17

6. Methodoleg .......... 18

Atodiad A .......... 20

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o’r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Ganolfan Ddeintyddol Llanidloes yn 7-8 Valentine Court, Great Oak Street, Llanidloes, Powys, SY18 6QP ar 15 Mawrth 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Canolfan Ddeintyddol Llanidloes yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn hwyluso gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Llanidloes yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yng nghyffiniau tref Llanidloes ac ardal Powys. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae Canolfan Ddeintyddol Llanidloes yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, ynghyd â nifer fach o wasanaethau deintyddol preifat.

Mae staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd (sy'n bartneriaid yn y practis), rheolwr y practis a derbynnydd. Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi helpu nifer o nyrsys deintyddol i gwblhau eu hyfforddiant yn y ddwy flynedd ddiwethaf ond eu bod wedi symud bellach i ardaloedd eraill.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Ddeintyddol Llanidloes yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag ato.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn ymddangos yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Roedd digon o gyfleusterau clinigol ar gael, ac roeddent yn ymddangos yn lân ac yn daclus
- Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion o safon uchel
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Roedd angen adolygu nifer o bolisïau a'u gwneud yn benodol i weithdrefnau'r practis hwn.
- Mae angen gosod system fwy effeithiol o wirio dyddiadau dod i ben cyffuriau ac offer brys.
- Rhaid sicrhau bod gwiriadau offer radiograffeg yn gyfredol.
- Dylid rhoi gweithdrefn arfarnu staff ar waith.
- Dylid cyflawni rhagor o archwiliadau radiograffeg trwyadl bob blwyddyn

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol. Nid oedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan y cleifion yn rheolaidd, fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

*"Deintydd gwych sy'n rhedeg practis effeithlon a chyfeillgar"*

*"Mawr yw ein parch at y practis deintyddol hwn.Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn ddymunol ac yn broffesiynol.Mae ein deintydd yn hyfedr iawn ac mae wedi tra rhagori ar ein disgwyliadau wrth ddelio ag angen ein merch am driniaeth orthodontig".*

*"Wedi i mi gael profiad gwael gyda deintydd arall, rwy'n ymddiried bellach yn fy neintydd newydd.Nid wy'n cael pyliau o banig, mae'n dweud wrthyf beth wnaiff e ac mae'n rhoi tawelwch meddwl i mi."*

*"Alla' i ddim gweld bai o fath yn y byd ar y practis hwn.Gwasanaeth o'r radd flaena' bob tro."*

**<u>Gofal gydag urddas</u>**

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn cael croeso mawr gan y staff. Gwelsom hefyd y modd cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ymagweddu tuag at y cleifion. Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i amddiffyn preifatrwydd y cleifion, gan gynnwys lle i gleifion gynnal sgyrsiau preifat gyda staff, a system i amddiffyn cyfrinachedd wrth ddelio â negeseuon ffôn gan gleifion. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent yn eu derbyn.

## Gofal amserol

Ceisiodd y practis sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad. Dywedodd hanner y cleifion wrthym eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd ar ddrws y ddeintyddfa yn rhoi rhif ffôn cyswllt mewn achos brys ac roedd hwn hefyd ar neges peiriant ateb y practis. Gan nad oedd hanner y cleifion yn ymwybodol o'r rhif ffôn y tu allan i oriau, efallai y byddai'r practis am ystyried hysbysu cleifion o'r trefniadau ar gyfer cael mynediad at ofal y tu allan i oriau.

## Cadw'n iach

Roedd amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd o gwmpas mannau'r dderbynfa, ac roedd ystod eang o daflenni ar gael. Gwelsom hefyd fod taflen wybodaeth y practis yn cael ei harddangos. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â'u triniaeth.

## Gofal unigol

Dywedodd y staff wrthym yr atgoffwyd cleifion i roi adborth ar lafar ynglŷn â'u safbwyntiau ar y gwasanaeth, pan oeddent yn mynychu'r practis. Gwelsom hefyd fod blwch awgrymiadau a slipiau awgrymiadau yn y dderbynfa/man aros er mwyn i gleifion gofnodi eu safbwyntiau. Dangosodd hyn fod systemau ar waith er mwyn galluogi cleifion i roi adborth parhaus i'r practis. Fodd bynnag, argymhellwyd y dylai'r practis ystyried cyflwyno holiaduron cleifion fel modd pellach o gasglu adborth.

Pan ofynnwyd ynghylch gwneud cwyn am eu gofal neu driniaeth, roedd llai na hanner o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur yn gwybod sut i wneud cwyn. Nid oeddynt ychwaith wedi gweld y neges ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa yn cynghori cleifion i siarad â rheolwr y practis os oedd ganddynt unrhyw bryderon (cwynion). Ni ddangoswyd unrhyw weithdrefn gwyno ar yr hysbysfwrdd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

Dylai fod hysbysiad yn dangos gweithdrefn gwyno'r GIG a Deintyddiaeth Breifat ill dau gan nodi graddfeydd amser perthnasol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gall cleifion gysylltu â nhw am gymorth a chyngor.

Dywedodd staff wrthym mai anaml yr oeddent yn derbyn pryderon (cwynion). Gwelsom fod proses sefydledig ar gyfer cofnodi unrhyw bryderon/gwynion a dderbyniwyd a pha fodd yr aethpwyd i'r afael â nhw.

Roedd ffioedd triniaeth i'w gweld yn glir yn y dderbynfa a hysbysiadau ynghylch costau triniaeth ddeintyddol breifat i'w gweld yn yr ystafelloedd triniaeth. Roedd hyn yn golygu bod y wybodaeth ynglŷn â chost bosibl triniaeth ar gael i'r cleifion.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y cleifion yn derbyn gofal deintyddol diogel ac effeithiol. Roeddem yn fodlon bod trefniadau ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a**

**staff rhag heintiau y gellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod yr offer pelydr-x yn cael ei ddefnyddio'n briodol a diogel ac y dilynwyd proses ddadheintio addas.**Canfuom fod angen gwneud gwelliannau i waith cynnal a chadw'r offer pelydr-x a'r archwiliadau radiograffig.

## <u>Gofal diogel</u>

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o gyrraedd y safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân. Roedd y toiledau'n cael eu cynnal yn dda yn ôl pob golwg ac roedd toiled neillryw hygyrch. Roedd mannau'r cleifion yn olau ac yn awyrog. Roedd mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn yng nghefn yr adeilad ac roedd y ddwy ystafell driniaeth yn hygyrch.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth yn y practis, a chanfod bod y rhain yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn helaeth ac yn lliwgar ac yn ôl pob golwg yn lân ac yn daclus. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi cael eu trefnu mewn modd tebyg i helpu nyrsys i weithio'n effeithlon.

Roedd tystysgrif archwilio diogelwch ar gael ar gyfer y peiriant sydd yn cyflenwi aer cywasgedig i'r ystafelloedd triniaeth (cywasgydd). Gwnaethom hefyd nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl offer trydanol i helpu i sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom hefyd fod tystysgrif gyfredol ar gyfer cynnal a chadw nwy. Gwelsom hefyd fod contract cynnal a chadw cyfarpar tân ar gael. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gwirio ym mis Ionawr 2016. Nodwyd allanfeydd argyfwng gan arwyddion clir ac roeddent yn rhydd o rwystrau.

Gwelsom fod gan y practis ffeil yn ymwneud â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a bod y cemegion i gyd yn cael eu cadw'n ddiogel y tu ôl i ddrysau cypyrddau cloëdig yn yr ystafelloedd triniaeth. Fodd bynnag, nid oedd yr holl ddalenni data sy’n darparu gwybodaeth am y cemegion ar gael ac nid oedd asesiadau risg yn gysylltiedig â'r cemegion unigol. Fodd bynnag, roedd angen cynnal asesiadau risg yn dangos y mesurau rheoli presennol sydd ar waith i atal anafiadau.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, ochr yn ochr â phob dalen wybodaeth, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir ar y safle.***

Nid oedd yr holl drefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-x) yn ddiogel. Gwelwyd tystysgrifau yn dangos bod staff wedi cwblhau eu hyfforddiant. Canfuom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, cynnal a chadw offer a phrofi ar gyfer un o'r peiriannau pelydr-x, ond roedd y gwiriad diogelwch wedi dod i ben ar gyfer y peiriant arall. Roedd y deintyddion yn ymwybodol o hyn ac roeddent wedi gwneud trefniadau i'r peiriannydd ymweld yn fuan wedi dyddiad yr arolygiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid sicrhau bod gwiriadau offer radiograffig yn gyfredol.*** Rhaid anfon tystiolaeth fod y peiriant pelydr-x wedi ei wirio ymlaen i AGIC pan fydd ar gael.

Roedd y cwmni oedd wedi gwasanaethu'r offer wedi cofnodi iddo weld y cynlluniau yn nodi'r man rheoli ymbelydredd. Fodd bynnag, nid oedd y rhain ar gael a chytunodd y practis i ofyn i'r cwmni gwasanaethu lunio cynlluniau newydd ar eu hymweliad nesaf.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid cadw'r holl wybodaeth berthnasol i ddiogelwch radiograffig yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd.Rhaid anfon copi o'r diagramau newydd i AGIC.***

Gwelwyd hefyd reolau lleol ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-x yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd ac ar y wal yn yr ystafelloedd triniaeth. Er i ni weld y ffurflen orffenedig yn cynghori'r Gweithredwr Iechyd a Diogelwch (HSE) ynghylch defnydd y practis o offer radiograffig, nid oedd cydnabyddiaeth gan y Gweithredwr Iechyd a Diogelwch. Cynghorwyd y practis i sicrhau bod cofnod o'r gydnabyddiaeth hon y cael ei chadw. Roedd yr hysbysiad iechyd a diogelwch wedi dod i ben hefyd a chynghorwyd y practis i arddangos fersiwn gyfredol.

Cadarnhaodd trafodaethau â'r tîm deintyddol fod ansawdd y pelydrau-x yn cael ei ystyried a'i gofnodi bob dydd. Gwnaethom gynghori'r deintyddion i gofnodi a graddio'r lluniau bob tro, gan y bydd hyn yn sicrhau y gellir canfod a datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosib.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r broses o gynnal sganiau pelydr-x deintyddol yn 2014 a 2015. Fodd bynnag, roedd yr archwiliadau pelydr-x yn sylfaenol iawn. Dylid cyflawni archwiliadau yn rheolaidd ac mewn mwy o fanylder. Cynghorwyd y practis i roi ffordd o goladu gwybodaeth graddio pelydr-x ar waith er mwyn gwneud yr archwiliad nesaf yn haws ei lunio.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau radiograffig yn cael eu cynnal bob blwyddyn, gyda gwell trawstoriad o radiograffau yn cael eu cynnwys er mwyn sicrhau darlun cywirach.***

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion oedd yn dangos bod holl aelodau'r tîm wedi derbyn hyfforddiant ynglŷn âpherfformio dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR).

Roedd offer dadebru a chyffuriau brys yn cael eu storio yn yr ystafell staff ac roeddent ar gael ar unwaith pe bai argyfwng i glaf (llewyg) yn y practis. Roedd oergell ar wahân ar gyfer eitemau clinigol. Roedd gweithdrefn ar waith er mwyn gwirio offer a chyffuriau brys, ond serch hynny, canfuom fod angen gwella'r weithdrefn hon; er bod y rhan fwyaf o'r cyffuriau yn gyfredol, roedd yr aspirin hydawdd a'r midazolam wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Bydd angen rhoi sylw brys i hyn. Prynwyd yr aspirin hydawdd ddiwrnod yr arolygiad a gwelsom e-bost yn cadarnhau bod midazolam wedi ei archebu. Roedd oes padiau'r diffibriliwr wedi dod i ben.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

Dylid datblygu system gadarnach ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben offer a chyffuriau brys i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.Dylai'r system ystyried canllawiau a gynhyrchwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion weithiau'n ymweld â chleifion yn yr ysbyty ac yn achlysurol iawn yn ymweld â chleifion yn eu cartrefi (ymweliadau cartref), ond nad oeddent yn mynd ag offer brys gyda nhw. O'r herwydd, dylai'r practis wneud trefniadau addas er mwyn sicrhau bod deintyddion sy'n ymweld â chartrefi cleifion yn gallu ymateb i argyfyngau claf yn effeithiol. Ni ddylai'r trefniadau hyn gyfaddawdu diogelwch cleifion sy'n ymweld â'r practis ar gyfer triniaeth.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid gwneud trefniadau er mwyn sicrhau bod deintyddion sy'n ymgymryd ag ymweliadau â chartrefi cleifion yn gallu ymateb yn effeithiol i argyfwng claf (llewygu).***

Roedd un o'r deintyddion yn swyddog cymorth cyntaf penodedig. Fodd bynnag, ni chwblhawyd unrhyw hyfforddiant ffurfiol. Cynghorwyd y deintydd i ystyried cwblhau cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai'r practis geisio cyngor gan

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gadarnhau p'un a yw'r trefniadau ar gyfer cymorth cyntaf yn briodol.

Er bod gan y practis ei system ei hun ar gyfer cofnodi damweiniau, ni chofnodwyd dim ers 2011.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r practis ddefnyddio llyfr damweiniau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn a phrotocol yr Awdurdod.Dylai'r practis sicrhau bod pob damwain yn cael ei gofnodi yn y modd priodol.***

Roedd gan y practis fannau neilltuedig yn y ddwy ystafell driniaeth ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau. Roedd y mannau hyn i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a gweithdrefnau a oedd wedi'u hen sefydlu ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff. Roedd system drefnus ar waith yn ardal ddadheintio'r ystafell driniaeth ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd cynlluniau ar y gweill i wahanu'r ardal ddadheintio oddi wrth weddill yr ystafell driniaeth, yn unol ag arfer orau.

Roedd y nyrsys deintyddol dan hyfforddiant wedi derbyn hyfforddiant ar ddadheintio gan y deintyddion fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu. Gwelsom waith papur cyfnod ymsefydlu'r nyrsys ill dwy ac o'u gwylio'n sterileiddio offer deintyddol, gwelsom fod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r broses.

Canfuom fod angen adolygu'r polisi rheoli heintiau er mwyn bod yn fwy penodol i'r practis ac er mwyn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05[1].

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylid adolygu'r polisi rheoli heintiau er mwyn bod yn fwy penodol i'r practis ac er mwyn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau yn 2015, nad oedd yn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 01-05. Gwnaethom gynghori'r practis i ddefnyddio'r offeryn archwilio a ddatblygwyd gan Ddeoniaeth Cymru ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol. Er i hysbysiad o weithredoedd gofynnol gael ei atodi i archwiliad 2015, nid oedd cofnod o bryd cafodd y gwelliannau eu cwblhau. Gwnaethom gynghori'r practis i fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol.

Yn unol ag arfer orau, roedd gan yr ystafelloedd triniaeth awtoclafau gwactod math B. Gwelsom fod tystysgrifau cynnal a chadw'r cyfarpar yn gyfredol. Roedd y practis yn cofnodi gwiriadau dyddiol ac wythnosol ar y peiriannau sterileiddio er mwyn sicrhau bod yr offer yn aros mewn cyflwr da a bod y broses ddadheintio'n effeithiol. Canfuom fod y practis yn cofnodi'r holl wiriadau argymelledig ar yr awtoclafau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Er ei fod yn amlwg bod y dŵr yn yr awtoclafau'n cael ei newid yn ddyddiol, nid oedd llofnod i gadarnhau hyn. Cynghorwyd y practis i gadw cofnod o’r adegau y byddai’r dŵr yn cael ei newid yn ddyddiol. Pecynnwyd a dyddiwyd offer mewn modd priodol. Roedd y rheini a ddefnyddid yn ddyddiol yn cael eu storio ar hambyrddau offer, ond cynghorwyd y practis i gadw'r offer dan orchudd er mwyn osgoi halogiad.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob agwedd ar y broses ddadheintio yn bodloni gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.Yn benodol dylai'r practis:***

- ***Gofnodi pryd y byddai’r dŵr yn yr awtoclaf yn cael ei newid yn ddyddiol***
- ***Cadw offer wedi'i storio ar hambyrddau dan orchudd.***

Roedd yn amlwg bod gan y practis system ar waith er mwyn rheoli gwastraff mewn modd priodol a diogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff (clinigol) peryglus a gwastraff (domestig) nad yw'n beryglus. Gwelsom hefyd fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a’i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â’r dull cywir o'i waredu. Fe'u storiwyd mewn man y tu allan wrth aros iddynt gael eu casglu. Dywedwyd wrthym fod y man hwn fel arfer dan glo ond ddiwrnod yr arolygiad yr oedd ar agor.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid storio'r holl wastraff yn ddiogel ar bob adeg.***

Gwelsom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith er mwyn amddiffyn plant ond nid oedolion sy'n agored i niwed. Roedd yr holl aelodau o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis lunio a gweithredu polisi diogelu oedolion sy'n agored i niwed.***

Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff fynegi unrhyw bryderon. Canfuom fod gan ddau ddeintydd wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol, ond nid gan ddwy o'r nyrsys deintyddol dan hyfforddiant. Dywedwyd wrthym y byddent yn cael eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nawr eu bod wedi cwblhau eu cyfnod prawf. Gwnaethom gynghori i'r practis gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel rhan o'i wiriadau cyn cyflogi ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff.

## Gofal effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella’r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi cael eu cwblhau gan y practis, gan gynnwys rheoli heintiau, archwiliadau radiograffig, cadw cofnodion a rhagnodi.

Er bod tystiolaeth i'r practis gynnal archwiliadau, roedd rhai ohonynt yn eithaf syml. Rhaid i'r archwiliadau radiograffig fod yn fanylach ac nid oedd yr archwiliad rheoli heintiau'n unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi defnyddio dull datblygu tîm megis dull hunanwerthusiad Maturity Matrix Dentistry. Gwnaethom gynghori'r practis i roi dull datblygu tîm ar waith er mwyn caniatáu i'r tîm deintyddol ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn gweithio ac i alluogi pawb yn y practis i feddwl am ansawdd y gofal.

Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion cleifion o safon uchel yn gyffredinol, a ddangosodd fod gofal wedi cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Adolygwyd sampl o gofnodion cleifion gan y ddau ddeintydd. Ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cofnodion gofal cleifion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch y trafodaethau a gynhaliwyd ynglŷn â'r dewisiadau o ran triniaethau, a sut y ceisiwyd caniatâd gan gleifion. Cafwyd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth.

Canfuom fod gan y practis system gyson o sicrhau bod hanes meddygol cleifion yn cael ei wirio a gwelsom fod y ddau ddeintydd wedi cydlofnodi ffurflenni hanes meddygol.

Roedd tystiolaeth bod cleifion yn cael cynnig sganiau pelydr-x ar adegau priodol. Roedd ansawdd y pelydrau-X yn cael ei fonitro, ond canfuom nad oedd ansawdd y lluniau pelydrau-X yn cael ei gofnodi o bryd i'w gilydd. Gwnaethom argymell bod y practis yn rhoi sylw i hyn.

Gwelsom fod cyngor ar roi'r gorau i ysmygu ac alcohol, sgrinio am ganser ac adalw cleifion (yr amser rhwng apwyntiadau deintyddol) yn cael eu cofnodi yn unol â chanllawiau cyfredol NICE.

Cadwyd cofnodion papur yn ddiogel.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis.**Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, ond roedd angen adolygu a diweddaru rhai ohonynt.**Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Sefydlwyd y practis yn 1999 ar safle a rannwyd â meddyg lleol, ond yn 2010 cafodd y deintyddion gyfle i brynu llawr daear adeilad modern a'i droi'n bractis deintyddol. Dyluniodd y deintyddion gynllun y practis yn ôl eu manylion eu hunain ac roedd wedi'i ddylunio'n briodol gyda digon o le.

Cyfrifoldeb rheolwr y practis yw rheoli'r practis o ddydd i ddydd, a chyfrifoldeb y deintyddion yw'r agweddau clinigol. Tra bo'r trefniant hwn yn addas ar y cyfan, canfuom fod risg y gallai rhai agweddau ar reolaeth y practis fynd ar goll. Gwnaethom awgrymu felly y byddai'r practis ar ei ennill pe bai rôl y rheolwr yn cynnwys goruchwylio pob agwedd ar reolaeth y practis er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r gwasanaeth yn cael ei fonitro'n agosach.

Roedd gan y practis raglen ymsefydlu effeithiol ar waith a gwelsom dystiolaeth o ffeiliau ymsefydlu wedi'u cwblhau. Nid oedd arfarniadau ar waith eto ac er y dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff anffurfiol yn cael eu cynnal yn gyson, dim ond tystiolaeth o gyfarfodydd staff yn 2014 oedd ar gael. Nid oeddem yn gallu cadarnhau p'un a yw staff yn cael y cyfle i gynnig sylwadau a gwneud awgrymiadau am nad oedd tystiolaeth o hyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi tystiolaeth o gyfarfodydd staff yn gyson a dylai roi system arfarniadau blynyddol ar waith.***

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y ddau ddeintydd yn darparu triniaeth breifat, ac yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru), roeddent wedi'u cofrestru ag AGIC. Gwelsom eu tystysgrifau AGIC ond nid oeddent wedi'u harddangos. Gwnaethom gynghori'r deintyddion i arddangos eu tystysgrifau AGIC.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid arddangos tystysgrifau AGIC mewn man amlwg.***

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis. Dywedwyd wrthym fod un aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs llawn ond ar adeg ein harolygiad, nid oedd statws imiwnedd yr aelod hwnnw ar gael.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

Rhaid i'r practis gael copi o statws imiwnedd yr aelod o staff a nodwyd a gweithredu fel y bo'n briodol.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau oedd ar waith yn y practis. Nid oedd yn hawdd i'r staff ddod o hyd iddynt ac nid oeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Canfuom fod angen i'r polisi dadebru bod yn fwy perthnasol i'r practis ac iddo nodi rolau staff, ac felly hefyd y polisi trin mercwri. Nid oedd polisi amddiffyn oedolion na pholisi COSHH ar gael ychwaith. Gwnaethom gyfeirio at y polisi rheoli heintiau yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

Dylid adolygu a diweddaru'r holl bolisïau a rhoi system ar waith i ddangos bod y broses hon yn mynd rhagddi yn rheolaidd.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at y rheidrwydd i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Ddeintyddol Llanidloes yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynghylch y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn parhau heb eu gweithredu a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Unwaith y cytunir ar y cynllun gwella, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses arolygiad deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae’r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth galon dull AGIC o gynnal arolygiadau o fewn GIG Cymru. Bwriedir i’r saith thema weithio ar y cyd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae’r safonau’n allweddol i’r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwiliad o bolisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwiliad o'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Canolfan Ddeintyddol Llanidloes

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Mawrth 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Graddfa amser |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Dylai hysbysiad gael ei arddangos yn cynnwys gweithdrefn gwyno'r GIG a deintyddiaeth breifat ac yn nodi'r amserlenni perthnasol ar gyfer ymateb i gwynion a manylion sefydliadau perthnasol eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw am help a chyngor. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 15(4)(a)<br>Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 6.3 | Mae posteri'n cael eu harddangos yn y practis erbyn hyn yn nodi'r gweithdrefnau cwyno a'r amserlenni. Mae angen ychwanegu manylion cyswllt AGIC o hyd ar gyfer cleifion preifat a gwahaniaethu rhwng manylion cyswllt y GIG. | Marie Jones | Diwedd Gorffennaf 2016 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 8 | Dylid rhoi asesiadau risg ar waith, | Safonau | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith. | Marie Jones | Diwedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | ochr yn ochr â phob dalen wybodaeth, ar gyfer yr holl gemegion a gedwir yn y safle. | Iechyd a Gofal<br>Safon 2.1 | | | Gorffennaf 2016 |
| 9 | Rhaid sicrhau bod y gwiriadau ar gyfer yr offer radiograffig yn cael eu diweddaru. Pan fydd ar gael, rhaid anfon tystiolaeth at AGIC bod y peiriant pelydr-X wedi'i archwilio. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.9 | Mae'r dogfennau perthnasol wedi'u cyflwyno. Cafodd yr holl offer eu harchwilio ar 17 Mawrth 2016 a chafodd y dystiolaeth ei hanfon at AGIC ar 18 Mawrth 2016. | Marie Jones | 18 Mai 2016 (cwblhawyd) |
| 9 | Dylid cadw'r holl wybodaeth yn ymwneud ag amddiffyn radiolegol yn y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Rhaid anfon copi o'r diagramau newydd at AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.9<br>Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (1999) | Rhoddwyd y diagramau newydd ar waith ar 17 Mawrth 2016 ac maent yn cael eu cadw yn y ffeil Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol). Anfonwyd copïau at AGIC ar 18 Mai 2016. | Marie Jones | 18 Mai 2016 (cwblhawyd) |
| 10 | Rhaid i'r practis sicrhau bod archwiliadau radiograffig yn cael eu cynnal bob blwyddyn, a bod gwell trawstoriad o luniau radiograffig yn cael ei gynnwys yn yr archwiliad er mwyn sicrhau darlun mwy manwl gywir. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 3.3 | Mae'r nyrsys wedi newid ein meddalwedd, ac mae nodiadau atgoffa wedi'u gosod ar ein cyfer er mwyn i ni gynnal archwiliad blynyddol yn awtomatig. | Simon Sobhani | Diwedd mis Mawrth 2016 (cwblhawyd) |
| 10 | Rhaid cyflwyno system fwy trylwyr ar gyfer gwirio dyddiadau dod i ben offer meddygol a chyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safonau 2.6, | Mae'r holl gyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, ac mae gennym restr o ddyddiadau dod i ben pob | Marie Jones | Diwedd mis Ebrill 2016 (cwblhawyd) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Dylai'r system hon ystyried y canllawiau a luniwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). | 2.9<br>Canllawiau Cyngor Dadebru’r DU | cyffur yn y dderbynfa ac yn y pecyn argyfwng hefyd. Byddwn hefyd yn trefnu nodyn atgoffa yn ein dyddiadur (ar ein cyfrifiaduron). | | |
| 10 | Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau bod deintyddion sy'n cynnal ymweliadau cartref ac ymweliadau i ffwrdd o'r practis yn gallu ymateb yn effeithiol i argyfwng gyda chlaf (llewyg). | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.1 | Nid yw ein deintyddion yn cynnal ymweliadau cartref. Maent yn ymweld â'r ysbyty weithiau, ond rydym yn annog ein cleifion i fynychu'r practis. | Simon Sobhani | Diwedd mis Mawrth 2016 (cwblhawyd) |
| 13 | Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, dylai'r practis ddefnyddio llyfr damweiniau sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data ac sy'n cynnwys cyfeiriad, rhif ffôn a phrotocol yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Dylai’r practis sicrhau bod pob damwain yn cael ei chofnodi'n briodol. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.1 | Mae gennym lyfr damweiniau newydd sy'n cydymffurfio. Byddwn yn ychwanegu cyfeiriad a rhif ffôn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. | Marie Jones | Diwedd mis Ebrill 2016 (cwblhawyd) |
| 13 | Dylid diwygio'r polisi rheoli heintiau i fod yn fwy penodol i'r practis ac er mwyn dilyn canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | Bydd y staff clinigol yn rhoi hyn ar waith. | Simon Sobhani | Diwedd mis Ebrill 2016 (cwblhawyd) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Dylai'r practis sicrhau bod pob agwedd ar y broses ddadheintio'n bodloni gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Yn benodol, dylai'r practis wneud y canlynol:<br>• Gwneud cofnod bob dydd pan fydd y dŵr yn y peiriant awtoclaf yn cael ei newid<br>• Sicrhau bod yr offer a gedwir ar hambyrddau'n cael eu gorchuddio. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, paragraffau 4.13, 4.22, 4.27 | Mae caeadau wedi'u prynu i orchuddio'r offer ar hambyrddau. Cedwir cofnod awtomatig yn barod o'r newidiadau dŵr dyddiol yn y peiriant awtoclaf, ac rydym yn monitro hwn ar y cyfrifiadur. Dangoswyd hyn hefyd ar ddiwrnod yr arolygiad. | Simon Sobhani | Diwedd mis Ebrill 2016 (cwblhawyd) |
| 12 | Rhaid cadw pob eitem o wastraff yn ddiogel bob amser. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safonau 2.1, 2.4 | Rydym yn cynnal archwiliad dyddiol i sicrhau bod y cynhwysydd gwastraff peryglus y tu allan i'r practis dan glo. | Simon Sobhani | Diwedd mis Ebrill 2016 (cwblhawyd) |
| 13 | Rhaid i'r practis lunio a sefydlu polisi diogelu ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.7 | Byddwn yn gwneud trefniadau i'r staff fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael ar gyfer amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed er mwyn i ni ddiweddaru ein polisïau'n gywir. | Marie Jones | Diwedd mis Medi 2016 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 15 | Dylai'r practis gofnodi tystiolaeth o gyfarfodydd staff rheolaidd a chynnal arfarniadau blynyddol. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 7.1 | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith. Byddwn yn cynnal adolygiad o'n system bresennol ar gyfer cofnodi cyfarfodydd staff. Byddwn yn ceisio cyngor o'r canllaw Arfer Da o ran sut i gynnal arfarniadau blynyddol da ar | Simon Sobhani | Diwedd mis Medi 2016 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfer staff. | | |
| 15 | Rhaid arddangos tystysgrifau cofrestru AGIC mewn lle amlwg. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 4 | Mae tystysgrifau AGIC bellach yn ein meddiant ni ac maent yn cael eu harddangos yn briodol yn y dderbynfa. | Marie Jones | Diwedd mis Mawrth 2016 (cwblhawyd) |
| 16 | Rhaid i'r practis gael copi o statws imiwnedd yr aelod o staff a nodwyd a chymryd camau priodol os oes angen. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 2.4 | Gofynnwyd am y dogfennau perthnasol a bydd camau'n cael eu cymryd os yw'n briodol. | Marie Jones | Diwedd mis Medi 2016 |
| 16 | Dylid adolygu a diweddaru pob polisi a sefydlu system i ddangos bod y broses hon yn digwydd yn rheolaidd. | Safonau Iechyd a Gofal<br>Safon 3.1 | Bydd hyn yn cael ei roi ar waith. | Marie Jones | Diwedd mis Medi 2016 |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):** **Simon Sobhani**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **5 Gorffennaf 2016**